# Egluro Cynllunio Ynni Strategol

**Mae ein hanghenion ynni yn newid. Mae angen ynni ar bobl ar gyfer bywyd bob dydd. Mae busnesau'n dibynnu ar ynni er mwyn cael gwres, golau a chludiant, ac er mwyn darparu'r nwyddau sydd eu hangen ar bob un ohonom.**

Bydd angen llawer mwy o ynni glân, sicr a fforddiadwy arnom i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae gan drydan, nwy, a thanwyddau carbon isel fel hydrogen, i gyd ran i'w chwarae. Rhaid i ni wneud newidiadau i'r system ynni a symud ar gyflymder a graddfa nad yw Prydain Fawr wedi'u gweld o'r blaen. Mae'n her fawr, sy'n gofyn am ddull mwy cydlynol o weithredu.

## Cynllun ynni strategol cyflawn

Yn NESO, ein gwaith ni yw cynllunio'r newid hwn.


Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU ac Ofgem wedi gofyn i ni lunio cynllun ynni strategol cyflawn. Byddwn yn creu darlun llawn o system ynni'r dyfodol, sy'n ymdrin â'r canlynol:

- Y galw am ynni gan gartrefi, busnesau, diwydiant a thrafnidiaeth
- Y technolegau priodol i ateb y galw hwn, fel ynni gwynt ar y tir, ynni gwynt ar y môr, solar, nwy, hydrogen, a storio ynni
- Y rhwydweithiau trydan, nwy a hydrogen y bydd eu hangen arnom i symud a storio ynni o'r man lle caiff ei gynhyrchu, i'r man lle mae ei angen.

**Mae tair rhan i'n cynllun.** Mae'r rhain yn gweithio gyda'i gilydd, ond mae pob un yn dod â phersbectif unigryw:

- Mae'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP) yn canolbwyntio ar seilwaith cynhyrchu a storio trydan a hydrogen
- Mae'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) yn edrych ar rwydweithiau trawsyrru ar draws Prydain Fawr, sy'n debyg i draffyrdd ynni sy'n cludo ynni'n bell
- Mae Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (REPSs) yn canolbwyntio ar y rhwydweithiau dosbarthu nwy a thrydan sy'n dod ag ynni o'r systemau trawsyrru cenedlaethol i'n cartrefi a'n busnesau.

**Y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP)**
Cynhyrchu a storio ynni



**Y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP)**
Trawsyrru ynni

**Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP)**
Dosbarthu ynni

Bydd ein cynlluniau'n sicrhau bod y seilwaith ynni'n cael ei adeiladu pryd bynnag a lle bynnag y bydd ei angen, ac yn targedu buddsoddiad yn y lleoedd iawn. Bydd hyn yn helpu i ennyn hyder buddsoddwyr, osgoi costau diangen, a chefnogi nodau cenedlaethol a rhanbarthol hirdymor.

NESO
National Energy System Operator

## Rôl pob rhan

### Y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP)

Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol yn dangos sut mae diwallu anghenion ynni Prydain Fawr yn y dyfodol, a ble mae angen ynni newydd rhwng 2030 a 2050 a thu hwnt. Bydd yn canolbwyntio ar gynhyrchu a storio trydan a hydrogen.

Bydd y cynllun yn rhannu Prydain Fawr yn 19 ardal a fydd yn cael eu galw'n barthau, ac yn awgrymu faint o bob technoleg sydd orau ar gyfer pob parth. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i fuddsoddwyr, cymunedau a'r rhwydweithiau ynghylch anghenion ynni ar draws Prydain Fawr, ac yn help i baratoi cynlluniau hirdymor.

Byddwn yn ystyried costau, yr amgylchedd, a ffyrdd eraill o ddefnyddio'r tir a'r môr. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y cynllun drafft.

### Y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP)


Mae'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn edrych ar y rhwydweithiau trawsyrru, neu'r 'traffyrdd ynni', y mae eu hangen arnom er mwyn symud ynni'n effeithlon ar draws Prydain Fawr. Mae'r cynllun hwn yn egluro sut mae angen i systemau trydan, nwy a hydrogen esblygu gyda'i gilydd dros y 25 mlynedd nesaf.

Bydd y cynllun yn canfod ble gallai fod angen seilwaith trawsyrru newydd neu seilwaith wedi'i uwchraddio arnom i wneud yn siŵr bod cartrefi a busnesau'n gallu cael gafael ar ynni.

Bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn ystyried anghenion yng nghyswllt cysylltiadau. Bydd yn sicrhau bod gennym y pibellau, y ceblau a'r cysylltiadau iawn yn y lleoedd iawn ar yr adeg iawn.

### Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESPs)

Mae Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESPs) yn canolbwyntio ar y rhwydweithiau dosbarthu nwy a thrydan sy'n dod ag ynni o'r systemau trawsyrru cenedlaethol i'n cartrefi a'n busnesau.



[**Edrychwch ar ein hanimeiddiad ynghylch cynllunio ynni strategol**]

Mae'r cynlluniau'n cael eu creu ar gyfer Cymru a'r Alban, ac ar gyfer naw rhanbarth yn Lloegr. Byddant yn defnyddio data cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac adborth gan randdeiliaid a'r gymuned.

Bydd y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn dangos ble a phryd mae angen buddsoddi mewn rhwydweithiau dosbarthu lleol, ac yn helpu perchnogion rhwydweithiau i gynllunio gwaith uwchraddio yn y dyfodol.

## Mae eich barn chi'n bwysig

Mae mewnbwn rhanddeiliaid yn rhan hollbwysig o'r broses o gynllunio ynni strategol. Rydym yn cynnwys pobl ym mhob cwr o Brydain Fawr mewn trafodaethau cynnar ar ddyfodol ynni. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n weladwy, a'u bod yn rhoi cyfle i bobl ddylanwadu ar ein gwaith mewn ffordd gydlynol.

Wrth i ni ddatblygu'r cynlluniau newydd, byddwn yn:

- Meithrin cysylltiadau â phobl a sefydliadau ar draws Prydain Fawr – gan gynnwys llywodraethau, rheoleiddwyr, cyrff cenedlaethol a rhanbarthol, awdurdodau lleol, arbenigwyr diwydiant, a sefydliadau cynrychioladol ar draws Prydain Fawr
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i gael gafael ar ddata a'i ddefnyddio mewn ffordd sy'n ein helpu i wneud y penderfyniadau gorau posibl
- Rhannu gwybodaeth lle bynnag y gallwn i ddangos sut rydym wedi gwneud penderfyniadau
- Cynnal ymgynghoriadau llawn ar yr holl gynlluniau.



**Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â ni**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm.

neso.energy/strategic-energy-planning

box.sep-engagement@neso.energy

NESO
National Energy System Operator